Llwybr carlam i gryfhau'r Gymraeg

# Maniffesto
## SENEDD 2026–2030



*Gofynion Dyfodol i'r Iaith*
*ar gyfer Senedd Cymru 2026–2030*

**MANIFFESTO DYFODOL I'R IAITH**

**ar gyfer Senedd Cymru**
**2026-2030**

***LLWYBR CARLAM I GRYFHAU'R GYMRAEG***

## GOFYNION DYFODOL I'R IAITH AR GYFER SENEDD CYMRU 2026-2030

1. **Cynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg**
2. **Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**
3. **Y Gymraeg yn brif iaith defnydd pobl**
4. **Addysg – cynyddu gweithlu ac addysg Gymraeg**
5. **Cryfhau cymunedau Cymraeg**
6. **Economi ffyniannus i hyrwyddo'r Gymraeg**
7. **Cynyddu gweithleoedd Cymraeg**
8. **Diwygio cynllunio, tai ac iaith**
9. **Ysgogi diwylliant Cymraeg**
10. **Cryfhau cyrff gweithredu**

**I sylw pleidiau sy'n ymgeisio am le yn Senedd Cymru, 2026-2030**

**Cysyllter â Dyfodol i'r Iaith: dylanbryn@dyfodol.net**
**www.dyfodol.net**

**Dylan Bryn Roberts, Prif Weithredwr Dyfodol i'r Iaith**

**Dyfodol i'r Iaith**

- Mae Dyfodol i'r Iaith yn fudiad amhleidiol sy'n gweithredu er lles y Gymraeg
- Ei nod yw dylanwadu drwy ddulliau cyfansoddiadol ar sylwedd a chynnwys polisïau cyhoeddus a deddfwriaeth er mwyn hybu twf a ffyniant y Gymraeg.

## Cefndir

Er bod *Cymraeg 2050* (2017) Llywodraeth Llafur Cymru wedi gosod nod uchelgeisiol o filiwn o siaradwyr erbyn 2050, mae angen camau gweithredu sylweddol, yn rhan o strategaeth eang a chydlynol, i wireddu hyn.

- Mae'r Bil Addysg Gymraeg yn rhy wan: does dim sylw penodol i ysgolion Cymraeg, na thargedau i gynyddu'r gweithlu addysg Gymraeg.
- Er bod y Llywodraeth wedi derbyn bod angen rhoi sylw i ardaloedd Cymraeg, does dim penderfyniadau wedi'u gwneud ar nifer o gamau gweithredu o bwys, e.e. sut i gryfhau economi a sut i ddatrys problemau tai.
- Does dim rhaglen i Gymreigio'r stryd fawr na thargedau i gynyddu nifer aelwydydd Cymraeg.

Mae'r nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg cyn belled heddiw ag yr oedd yn 2017.

Rydyn ni'n pryderu am sawl rheswm:

- Dangosodd Cyfrifiad 2021 ac arolygon eraill bod niferoedd siaradwyr Cymraeg yn gostwng.
- Mae twf ysgolion Cymraeg yn llawer rhy araf.
- Mae nifer sylweddol o'n pobl ifanc Cymraeg yn cael eu denu i brifysgolion y tu allan i Gymru, ac yn ymsefydlu y tu allan i'r wlad.
- Mae datblygiad economaidd ardaloedd mwy dwys eu Cymraeg yn dal yn araf.
- Mae tai mewn ardaloedd mwy dwys eu Cymraeg yn dal y tu hwnt i afael pobl ifanc.

Y cwestiwn allweddol, wrth i etholiad 2026 agosáu, yw sut y mae CREU LLWYBRAU CARLAM i gryfhau'r Gymraeg. Nid yw'r ymdrechion a wnaed hyd yn hyn wedi bod yn ddigonol i drawsnewid cyflwr y Gymraeg. Dyna pam mae angen ysgogiad newydd i roi momentwm di-droi'n-ôl i gynlluniau sydd eisoes ar y gweill, ac i gynlluniau newydd.

## 1. Cynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg

Dangosodd Cyfrifiad 2021 fod cynnydd yn niferoedd siaradwyr Cymraeg 16-40 oed. Mae hyn yn glod i'r ysgolion Cymraeg. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn symud allan o Gymru, i brifysgolion neu i gael gwaith. Mae angen rhaglen gynhwysfawr, wedi'i chyllido'n llawn, i gynyddu niferoedd siaradwyr trwy sawl dull:

i. Twf cyflym ysgolion Cymraeg.
ii. Dysgu'r Gymraeg i rieni.
iii. Dysgu'r Gymraeg i'r gweithlu.
iv. Trawsnewid dysgu'r Gymraeg mewn ysgolion Saesneg.
v. Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar yr aelwyd.
vi. Targedu newydd-ddyfodiaid.

## 2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

Er mwyn cynllunio a gweithredu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, mae angen casglu gwybodaeth fanwl am hyn er mwyn mesur unrhyw gynnydd.

Rydym am weld arolwg cyson o'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd a gan wahanol grwpiau o bobl:

i. Yn y teulu.
ii. Yn y gwaith.
iii. Mewn addysg.
iv. Yn gymdeithasol.
v. Mewn adloniant a chwaraeon.
vi. Ar y stryd fawr.

Bydd camau gweithredu pwrpasol yn gallu targedu'r gwahanol beuoedd hyn.

## 3. Hyrwyddo'r Gymraeg yn brif iaith defnydd nifer cynyddol o bobl mewn nifer cynyddol o sefyllfaoedd

Mae llawer o bobl yn dewis defnyddio'r Gymraeg, o argyhoeddiad. Mae llawer o bobl yn defnyddio'r Gymraeg am mai'r Gymraeg yw'r iaith naturiol neu'r brif iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Y gamp yn awr yw cynyddu'r ddwy garfan yma. Yn achos y grŵp cyntaf, mae angen creu ymdeimlad o falchder a hyder cynyddol mewn Cymreictod a'r Gymraeg. Mae hyn yn dasg i holl adrannau'r Llywodraeth, ond yn benodol i'r adran addysg. Mae angen i bobl Cymru fod yn ymwybodol o hanes y wlad ac o hanes yr iaith er mwyn gwerthfawrogi bod gan bawb rôl bersonol. Bydd cael rhagor i ddefnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd yn allweddol

.

Yn achos yr ail grŵp, yr angen yw gwneud y Gymraeg yn iaith weladwy a chlywadwy mewn nifer cynyddol o sefyllfaoedd. Mae angen i'r Gymraeg fod yn iaith sy'n cael ei defnyddio fwyfwy yn y gwaith, mewn adloniant a hamdden, ac ar y stryd fawr. Mae hwn yn fater o gryn bwys mewn ardaloedd lle nad yw'r Gymraeg yn iaith amlwg yn y gymuned. Mae Canolfannau Cymraeg dynodedig i'w croesawu a chredwn hefyd fod angen edrych ar ffyrdd amgen o hyrwyddo lleoliadau i bobl allu mwynhau defnyddio'r Gymraeg. Mae'n bwysig medru dangos bod y Gymraeg yn fyw mewn amryw o sefydliadau ar draws Cymru.

Gan fod Cymru'n derbyn nifer cymharol sylweddol o newydd-ddyfodiaid, mae cael rhaglen drylwyr o gyflwyno'r Gymraeg i'r rhain yn angenrheidiol.

## 4. Addysg

Mae Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn brin o roi arweiniad digonol i Weinidogion ac Awdurdodau Lleol i gynyddu lle'r Gymraeg mewn ysgolion a'r system addysg yn ehangach. Nid yw'n amlwg y bydd cynnydd cyflym yn digwydd. Nid oes digon o athrawon a gweithlu cymwys ar gael. Mae ehangu addysg Gymraeg yn amod twf yr iaith. Mae angen cyflymu'r twf, ond er mwyn gwneud hyn mae angen rhaglen drylwyr o hyfforddiant iaith i athrawon, darpar athrawon ac arweinwyr cylchoedd y sector cyn-ysgol, addysg bellach ac uwch. Mae angen hefyd gymell a chadw'r gweithlu presennol rhag gadael y proffesiwn.

**Cael gweithlu digonol:**
Mae 40% o'n myfyrwyr yn astudio y tu allan i Gymru. Mae 70% o fyfyrwyr a fu'n rhan o gynllun Academi Seren yn astudio y tu allan i Gymru. Mae angen i Gynllun Seren newid cyfeiriad i annog disgyblion i astudio ym mhrifysgolion Cymru'n bennaf. Gall hyn gael ei wneud trwy:

i. Cynnig cymhelliant ariannol i fyfyrwyr Addysg Uwch i astudio yng Nghymru (Mae'r Alban yn rhoi Addysg Uwch am ddim i'w myfyrwyr, a Gogledd Iwerddon yn talu hanner.)
ii. Cynnig cwricwlwm fydd yn ysgogi mwy o ddisgyblion iaith gyntaf ac ail iaith i astudio'r Gymraeg i Safon Uwch.
iii. Ariannu prifysgolion i hyrwyddo astudio pynciau ar y cyd â'r Gymraeg.
iv. Dwyn perswâd ar ddisgyblion ysgolion uwchradd Cymraeg i astudio'r Gymraeg i Safon Uwch ac er mwyn ennill cymwysterau fydd yn eu galluogi i fod yn athrawon cyfrwng Cymraeg, mewn meysydd lle bydd prinder dwys am flynyddoedd i ddod.
v. Cynyddu hyfforddiant iaith-Gymraeg i staff ysgolion Saesneg.
vi. Cynyddu hyfforddiant iaith-Gymraeg i arweinwyr cylchoedd y sector cyn-ysgol.

**Sicrhau twf cyflymach addysg Gymraeg:**
i. Trefnu system gadarn o addysg drochi yn y Gymraeg i blant o dan 7 oed.
ii. Gwneud yn siŵr mai ysgolion Cymraeg fydd pob ysgol gynradd newydd .
iii. Cyflymu trosi ysgolion dwy iaith yn ysgolion Cymraeg.
iv. Mewn ardaloedd trefol, ad-drefnu adeiladau fel bod nifer cynyddol o ysgolion Cymraeg heb gost cyfalaf.
v. Trefnu system o addysg drochi hwyr ledled Cymru.
vi. Rhoi mantais cludiant i ysgolion Cymraeg lle maent ymhellach o gartrefi nag ysgolion Saesneg.

**Pwyslais ar hanes Cymru**
i. Cryfhau lle hanes Cymru yn y cwricwlwm, fel y caiff pob disgybl gefndir cyflawn o hanes Cymru.
ii. Cyflwyno hanes y Gymraeg yn rhan annatod o gwricwlwm pob ysgol.
iii. Sicrhau bod y TGAU Hanes newydd, sydd bellach wedi'i ohirio tan 2026, yn adlewyrchu pwysigrwydd dysgu Cynefin (hanes lleol) ac yn sicrhau bod hanes Cymru yn cael ei astudio mewn ffordd eang a chynhwysfawr yn hytrach na'i gyfyngu i gyfnodau byr.
iv. Annog ysgolion i integreiddio hanes Cymru yn fwy holistaidd ar draws pob maes o'r

cwricwlwm a sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gefnogi hyn.

**Defnydd llafar o'r Gymraeg**

i. Rhoi rôl benodol i rieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant cyn-ysgol a sector cynradd.
ii. Rhoi pwyslais cynyddol ar ddysgu pynciau trwy'r Gymraeg ar draws y gyfundrefn addysg.
iii. Rhoi cefnogaeth ariannol i weithgareddau allgyrsiol Cymraeg.

**Sicrhau dilyniant rhwng y sectorau addysg**

i. Dysgu'r Gymraeg fel un iaith; bydd hyn yn cryfhau dilyniant iaith rhwng pob sector addysg.
ii. Cynnig cludiant i addysg 16+ fel y gwneir i addysg statudol.

**Addysg bellach ac uwch**

i. Cryfhau darpariaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynyddu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sectorau addysg bellach ac uwch.
ii. Rhoi pwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyrsiau addysg bellach sy'n cynnwys ymwneud â chwsmeriaid a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Llywodraeth yn gynyddol yn buddsoddi mewn prentisiaethau. Mae angen cefnogaeth i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg gyda chysylltiadau â gweithleoedd sy'n medru cynnig profiadau gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg.
iii. Sefydlu system dracio cyn-ddisgyblion ysgolion Cymraeg i hyrwyddo creu gweithlu Cymraeg.

**Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

Yn sgil y Bil Addysg, y gobaith yw y bydd Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn ehangu i gynnwys dysgu'r iaith i'r gweithlu addysg, i greu gweithlu dwyieithog. Mae angen cyllid digonol i'r Ganolfan, sydd ar fin cael ei sefydlu'n Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, fel bod y cyllid yn cyfateb i esiampl lwyddiannus Gwlad y Basg, er mwyn:

i. Rhoi blaenoriaeth i hyfforddiant iaith i athrawon a gweithwyr cyhoeddus.
ii. Rhoi hyfforddiant iaith i rieni sydd am ddatblygu defnydd o'r Gymraeg yn y cartref.
iii. Cynyddu rhaglenni rhyddhau o'r gwaith i ddysgu'r iaith a gwella sgiliau iaith. A oes modd cynnig cymhelliant i weithleoedd a busnesau i wneud hyn?
iv. Cynnig cyrsiau dwys dros flwyddyn gyda hyd at 1,200 o oriau cyswllt.
v. Cynnig cwricwlwm ac adnoddau pwrpasol i bob oedran dysgu.

## 5. Cymunedau Cymraeg

Er bod y Llywodraeth wedi derbyn yn gyffredinol y syniad o gydnabod ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, mae angen camau gweithredu pendant ar holl argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg.

Mae angen cynyddu cymunedau daearyddol, rhwydweithiol neu sefydliadol Cymraeg. Mae bygythiadau economaidd a demograffig sylweddol i gymunedau Cymraeg ardaloedd twristaidd.

Mae angen gweithredu pendant:

i. Gosod ffigwr twf yn y stoc tai mewn Cynlluniau Datblygu Unedol ar sail galw sirol lleol ac nid ar sail ffigyrau'r Llywodraeth.
ii. Creu cyfundrefn Cynllunio Gwlad a Thref ar bob lefel sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, gan ddefnyddio offerynnau statudol megis ailwampio Nodyn Cyngor Technegol 20. Dylai hyn gynnwys yr angen i egluro sut mae gwneud asesiad effaith ieithyddol pwrpasol i'r drefn gynllunio.
iii. Rhaglen economaidd sylweddol i gryfhau cymunedau lle mae'r Gymraeg yn brif iaith.
iv. Ymyrryd fwyfwy yn y farchnad dai, fel bod tai addas ar gael i bobl leol.
v. Cyfyngu ar nifer ail dai a gosod trothwy penodol megis 20% dyweder ym mhob ardal etholiadol.
vi. Darparu tai cymdeithasol lle bo'r angen.
vii. Rhoi'r gallu i awdurdodau lleol brynu tai gwag a'u rhentu i bobl leol.
viii. Cynllun prynu ar y cyd rhwng awdurdodau a phobl leol.

ix. Cynnwys y gallu i siarad Cymraeg wrth ystyried y diffiniad o 'gysylltiad lleol' wrth ddyrannu tai cymdeithasol a fforddiadwy.
x. Annog y defnydd o'r Gymraeg mewn busnesau lleol a mannau cymdeithasu ar y stryd fawr.
xi. Sefydlu rhwydwaith o Ganolfannau Cymraeg fydd yn bwerdai i'r iaith.

Wrth ystyried bywyd unigolion dwyieithog, mae angen cynyddu'r meysydd yn eu bywyd lle mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf. Gall hyn fod yn y cartref, yn y gwaith, yn y gymuned leol, ar y cyfryngau cymdeithasol, ym myd diwylliant a'r cyfryngau ac ati.

## 6. Economi Ffyniannus

Mae cysylltiad iaith ac economi'n ddyrys, ac nid oes modd rheoli'n fanwl. Fodd bynnag, mae angen creu cyffro economaidd fydd yn gallu peri bod gan siaradwyr Cymraeg gyfleoedd gwaith atyniadol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

i. Mae Cynllun Arfor yn gynllun â photensial. Yn dilyn y cyfnod cychwynnol, mae angen buddsoddiad dwys hirdymor yn y cynllun er mwyn iddo ddod yn gorff hybu economaidd. Mae angen cwmpasu Arfor o fewn adran economi Cynghorau Sirol a Fframweithiau economaidd rhanbarthol.
ii. Mae angen i Adran Economaidd Llywodraeth Cymru gyd-weithio yn fwy rhagweithiol gydag adran *Cymraeg 2050.*
iii. Anelu at sefydlu Canolfannau Twf Economaidd mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.
iv. Parhau i gyllido a hyrwyddo Cynllun Helo Blod y Llywodraeth. https://busnescymru.llyw.cymru/heloblod/ ac ehangu ei gwmpas
v. Gosod cyfrifoldeb ar Busnes Cymru i wneud llawer mwy o ran hyrwyddo'r Gymraeg.
vi. Cydnabod, a diogelu'r sector amaethyddiaeth a gwyrdroi'r diffyg cefnogaeth ariannol oherwydd cyfraniad enfawr y sector i gynaladwyedd y Gymraeg yng nghefn gwlad Cymru.
vii. Creu Asiantaeth Busnes Cymraeg i weithredu ar draws Cymru.
viii. Datganoli sefydliadau cenedlaethol i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch eu Cymraeg.
ix. Hyrwyddo polisi caffael lleol h.y. Cymreig nid y D.U.

## 7. Gweithleoedd Cymraeg

Un sialens fawr sydd heb ei hateb yn ddigonol o hyd yw datblygu gweithleoedd Cymraeg. Nid yw pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg mewn gweithleoedd yn cael ei drafod na'i gynllunio yn ddigonol o safbwynt cynllunio ieithyddol. I fwyafrif o bobl y tu hwnt i gymunedau Cymraeg, dyma'r prif gyfle iddynt allu parhau i ddefnyddio'r Gymraeg ar ôl gadael y gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae Cyngor Gwynedd wedi dangos bod modd creu gweithlu sy'n defnyddio'r Gymraeg fel prif iaith weinyddol. Mae cyfle mawr i'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat greu gweithleoedd Cymraeg. Mae angen:

i. Creu amodau ffafriol i fusnesau ddatblygu yn Nghymru os ydym am ddatblygu polisi iaith sydd yn creu gweithleoedd Cymraeg.
ii. Casglu data ar weithleoedd cyhoeddus Cymraeg.
iii. Gosod cwota penodol i gynyddu gweinyddu trwy'r Gymraeg.
iv. Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr i weinyddu'n fewnol trwy'r Gymraeg, fel Gwynedd.
v. Gosod targedau i siroedd eraill.
vi. Cymathu lleiafrifoedd ethnig i raglen dysgu iaith a gweithio trwy'r Gymraeg.

Ffordd gadarn o sicrhau cynnydd yn y gweithluoedd Cymraeg yw bod Safonau'r Gymraeg yn:

i. Gosod targedau ar gyfer siroedd a chyrff cyhoeddus.
ii. Cynnwys y sector preifat a'r trydydd sector.

Mae angen mwy na chynnig gwasanaeth blaen desg dwyieithog. Mae angen i'r Gymraeg fod yn iaith fyw yn y gweithle, ac yn arbennig mewn mannau cymdeithasu. Ond mae'n rhaid ategu hyn gyda rhaglen fydd yn cryfhau'r Gymraeg yn iaith lafar mewn nifer cynyddol o ganolfannau

cymdeithasu, e.e. caffis, tafarnau, canolfannau siopa

i. Rhaglen eang i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn gyntaf.
ii. Ei gwneud yn fwy amlwg lle mae modd defnyddio'r Gymraeg, a gyda phwy.
iii. Creu cymhellion i gaffis, siopau ac ati greu awyrgylch Gymraeg ac mae angen amlygu'r manteision i fusnesau i fod yn rhan ohono.
iv. Ei gwneud yn arfer bod staff gwerthu a gweini'n defnyddio'r Gymraeg yn gyntaf.
v. Gweld defnydd eang o becyn 'Iaith Gwaith' gan staff.

## 8. Cynllunio Gwlad a Thref

Mae Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg sy'n argymell dynodi Ardaloedd o Arwyddocâd ieithyddol dwys uwch yn ei gwneud yn ofynnol bod cyfundrefn Cynllunio Gwlad a Thref Cymru, ar lefel genedlaethol a lleol, yn hyrwyddo'r Gymraeg fel a wneir ym maes Cadwraeth.

Mae angen gwneud yr hyn sy'n bosibl i sicrhau cyfran gyfesur o dai fforddiadwy i bobl leol sy'n gallu'r Gymraeg, ac i beri nad yw'r system gynllunio'n milwrio yn erbyn siaradwyr Cymraeg. Ar hyn o bryd, nid ystyrir yr iaith yn y drefn.

i. Gwneud y Gymraeg yn ystyriaeth hanfodol mewn cynllunio, fel bod cyflenwad tai addas ar gael i bobl leol.
ii. Pennu ardaloedd â 25%+ o siaradwyr Cymraeg yn rhai o Arwyddocâd Ieithyddol Arbennig, yn ogystal â rhai 40%+ o siaradwyr Cymraeg yn rhai o Arwyddocâd Ieithyddol dwysedd uwch.
iii. Sefydlu arolygiaeth gynllunio annibynnol a phenodol i Gymru gyda dealltwriaeth o gynllunio ieithyddol mewn gwlad â chymunedau dwyieithog.
iv. Polisi tai Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai i roi blaenoriaeth i dai cymdeithasol sy'n gymorth i bobl leol a phobl ifainc aros yn eu hardal (mae angen sicrhau fod gallu yn y Gymraeg yn amod wrth bennu nifer cyfesur o dai i bobl leol mewn cymunedau).
v. Cyfyngu'r ganran o ail gartrefi i 20% ar y mwyaf mewn unrhyw ardal etholiadol i sicrhau hyfywedd cymunedau gwledig.
vi. Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i gael grym ymyrryd statudol mewn ceisiadau cynllunio tai fel ymgynghorai statudol.
vii. Blaenoriaethu tai cymdeithasol i bobl leol, e.e. trwy ddefnyddio system bwyntiau.

## 9. Y Cyfryngau a diwylliant

Mae'r cyfryngau torfol a'r cyfryngau cymdeithasol yn fwyfwy amrywiol a dylanwadol. Dylai'r cyfrifoldeb dros holl gyfryngau Cymru a phob math o ddarlledu yng Nghymru gael ei ddatganoli i Senedd Cymru cyn gynted ag y bo modd.

i. Dylai S4C, BBC Cymru a Radio Cymru, yn ogystal â phob darlledwr masnachol a phob llwyfan cyfryngol newydd fod yn atebol i farn ddemocrataidd pobl Cymru drwy awdurdod cenedlaethol a sefydlir gan Senedd Cymru.
ii. Pryderwn fod rheolaeth ein sianel deledu genedlaethol yn or-ddibynnol ar hyn o bryd ar y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig. Ofnwn y gallai dibyniaeth S4C ar gyllid y BBC ddylanwadu'n anfwriadol ar gynnwys golygyddol rhaglenni S4C. Ofnwn hefyd fod dyfodol y BBC fel darlledwr cyhoeddus o dan fygythiad gwleidyddion San Steffan, ac y byddai lleihau ystod gwasanaethau'r Gorfforaeth yn tanseilio gwasanaeth cyhoeddus S4C i siaradwyr Cymraeg.
iii. Dylai'r gwasanaethau Saesneg-yn-bennaf gynyddu eu cynnwys Cymraeg a dwyieithog, fel bod y Gymraeg yn dod i glyw'r holl boblogaeth.
iv. Dyletswydd pob gwasanaeth a llwyfan sy'n cael y fraint o ddarlledu a chyfathrebu yn Gymraeg yw gwneud hynny mewn iaith lafar rywiog a naturiol.
v. Mae angen cynyddu'n sylweddol y defnydd o Gymraeg ar draws llwyfannau'r cyfryngau newydd, a chael y cwmnïau rhyngwladol masnachol i ehangu eu defnydd o Gymraeg i'r perwyl hwnnw. Dylai'r maes yma fod yn rhan o gyfrifoldeb S4C.

vi. Mae angen dal i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg i bobl ifanc ar y teledu a'r radio a'r cyfryngau eraill.
vii. Mae angen datblygu'r gallu i ddefnyddio meddalwedd adnabod llais yn Gymraeg.
viii. Mae angen sicrhau bod darlledu Cymraeg ar gael yn rhyngwladol, mor hwylus ag ydyw yng Nghymru.

**Diwylliant creadigol, amgueddfeydd, llyfrgelloedd a chyhoeddi**
Mae angen gwneud iawn am y toriadau a welwyd yn y meysydd hyn gydol y deng mlynedd diwethaf. Mae Cymru'n gwario llai ar ddiwylliant nag unrhyw wlad arall yn Ewrop.

i. Mae toriadau'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn niweidiol i ddiwylliant Cymraeg mewn sawl maes.
ii. Mae cwtogi arian i Gyngor Llyfrau Cymru'n cael effaith andwyol ar y byd cyhoeddi Cymraeg.
iii. Mae cwtogiadau a fu i'r Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol yn ymosodiadau ar gyrff sy'n cynnal ac yn datblygu ein cof a'n treftadaeth genedlaethol.
iv. Mae toriadau i'r sector creadigol, gan gynnwys cwmnïau theatr, canolfannau perfformio, corau a pherfformwyr Cymraeg yn niweidiol i greadigedd byw.

## 10. Cryfhau cyrff gweithredu

Mae dau gorff ar hyn o bryd yn gyfrifol ar y gwastad cenedlaethol am yrru polisi parthed y Gymraeg.

**(i) Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg**
Mae gan y Comisiynydd gylch gorchwyl eang sy'n cynnwys hyrwyddo'r iaith. Ei brif swyddogaeth, serch hynny, fu ac yw cryfhau hawliau siaradwyr Cymraeg drwy weithredu'r system o safonau a sefydlwyd yn wreiddiol gan ddeddfwriaeth ym Mesur yr Iaith Gymraeg a ddaeth i rym yn 2011. Mae'r modd y mae'r Comisiynydd a'i staff yn gweithredu'n adeiladol ac ar yr un pryd yn codi llais ynghylch diffygion polisi ac anghenion y Gymraeg i'w ganmol. Ond rydym yn bryderus am ddiffyg dylanwad a phwerau presennol y Comisiynydd. Credwn felly bod angen i'r Comisiynydd gael pwerau i fod â rôl strategol ac yn ymgynghorai statudol mewn nifer o feysydd, gan gynnwys addysg a chynllunio, fel y gall y Gymraeg fod yn ystyriaeth ganolog yn y meysydd hyn. Er mwyn gweithredu'r swyddogaethau hyn yn llawn, mae'n allweddol arfogi'r Comisiynydd gyda'r adnoddau angenrheidiol (dynol a chyllidol).

Mae Dyfodol i'r Iaith yn gadarn o blaid cadw swydd y Comisiynydd annibynnol i gyflawni'r dyletswyddau sydd ganddo ar hyn o bryd a'u cryfhau gyda'r sector preifat a Chynllunio Gwlad a Thref .

**(ii) Is-adran y Gymraeg o fewn gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru (Prosiect Cymraeg 2050)**
Yr is-adran hon sydd â'r cyfrifoldeb am arwain y gwaith o gynllunio ieithyddol a gwireddu'r bwriad o sicrhau miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Hefyd, mae ei nod o gynyddu'r defnydd [nid dim ond gwybodaeth] o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yn greiddiol i'r bwriad. Felly, hefyd, sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n cofleidio'r angen am gynllunio cyfannol ar draws meysydd polisi ac adrannau'r llywodraeth.

Ynghylch gwaith yr Is-adran, fe welwn ni ddau ddewis:

(1) **Y Dewis Gorau: Awdurdod neu Asiantaeth newydd** yn gorff hyd-braich yn atebol i Lywodraeth Cymru, ac yn meddu ar alluoedd statudol. Dyma'r drefn yr ydym yn ei ffafrio. Byddai gan gorff felly broffil cyhoeddus amlwg, Prif Weithredydd a Bwrdd, a'r gallu i fod yn arloesol ac arbrofol mewn ffordd nad yw'n arferol i'r gwasanaeth sifil.

Mae'r meysydd sy'n dylanwadu ar y Gymraeg ar hyn o bryd yn perthyn i wahanol adrannau o'r Llywodraeth, ac yn destun gwahanol ddeddfau. Mae rhai meysydd yn dal i ddibynnu ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gael parhad cynllunio a gweithredu. Mae angen Corff Cynllunio Iaith Cenedlaethol a fydd yn cydlynu'r cynllunio mewn gwahanol feysydd. Credwn y dylai'r Awdurdod Iaith newydd draflyncu Swyddfa Comisiynydd Iaith a Phrosiect *Cymraeg 2050* fel adrannau y tu mewn iddo, gydag Arfor yn datblygu'n Adran Fusnes.

Byddai Prosiect *Cymraeg 2050* yn troi yn adrannau Cynllunio ac Addysg, a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn rhedeg fel adran Hyrwyddo/Safonau. Byddai'r Awdurdod wedyn yn fersiwn newydd, cryfach o'r hen Fwrdd Iaith, oedd yn gymharol effeithiol gyda'i wahanol adrannau. Ac ni fyddai'n gostus o gwbl i'w sefydlu o ad-drefnu staff sydd eisoes yn gweithio yn y maes.

(2) **Y Dewis ail-orau**: **Dyrchafu statws Prosiect 2050 yn uned ddylanwadol a phwerus** o fewn Llywodraeth Cymru ond mae hefyd angen ei brif-lifo i fod yn rhan o bob adran Llywodraeth Cymru, fel Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Gall hwn sicrhau mwy o blatfform at newid polisi sydd wastad yn buddio'r Gymraeg. I fod yn effeithiol, byddai rhaid i uned felly

i. gael proffil cyhoeddus uchel a bod yn adnabyddus i'r cyhoedd yn ogystal ag yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros y Gymraeg yn y Llywodraeth.
ii. feddu ar arbenigedd o'r radd flaenaf mewn cynllunio ieithyddol.
iii. fod yn rhydd i fentro, arloesi ac arbrofi.

Fe welwn ni'r opsiwn yma fel ateb tymor-byr. Dylid anelu yn y tymor canol, a chyn gynted â phosibl, at allanoli Prosiect Cymraeg 2050 yn gorff hyd-braich ar lun (1) uchod.

## Trefniant y Dyfodol

Y canlynol yw'r ymrwymiadau y mae Dyfodol i'r Iaith am i'r pleidiau gwleidyddol eu gwneud erbyn sefydlu llywodraeth newydd Cymru ym Mai 2026.

**1. Dyrchafu statws is-adran y Gymraeg** - Prosiect Cymraeg 2050 - o fewn Llywodraeth Cymru, gan symud ymlaen cyn gynted â phosibl i sefydlu Awdurdod Iaith hyd-braich. Mae angen ymrwymo i gefnogi'r Prosiect ag adnoddau ariannol sy'n gymesur â'r her ac i ddadansoddi'n glir y symiau ariannol perthnasol yn sgil Cyllideb gyntaf y llywodraeth newydd.

**2. Cryfhau swydd Comisiynydd y Gymraeg** ac ychwanegu'r sector preifat a Chynllunio Gwlad a Thref at gylch ei gyfrifoldeb. Mae gwendidau'r Ddeddf Iaith yn dod yn fwyfwy amlwg yn y sector breifat. Mae'r banciau, er enghraifft, yn gwbwl haerllug bellach yn gwrthod darparu gwasanaethau sylfaenol yn y Gymraeg gan gyfeirio at y ddeddfwriaeth bresennol fel cyfiawnhad dros y penderfyniad hwnnw.

**3. Cyllido Arfor yn sylweddol i'r hirdymor a'i greu'n Asiantaeth Ddatblygu** ar gyfer yr ardaloedd mwyaf Cymraeg, a chysylltu cryfhau'r Gymraeg â gweinyddiaeth fewnol Cynghorau Sir, datblygiad economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y rhanbarth yn ganolog i'w orchwyl.

**4. Sefydlu arolygiaeth gynllunio ar wahân i Gymru** ac **Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol Dwysedd uwch** er mwyn i'r Gymraeg ac anghenion pobl leol fod yn ystyriaeth hanfodol mewn cynllunio. Yr un pryd, Llywodraeth newydd Cymru i ymrwymo i weithredu argymhellion Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg.

**5. Sefydlu trefn i fesur y defnydd o'r Gymraeg** mewn gwahanol beuoedd, a bod yn gyfrifol am hyrwyddo'r defnydd ohoni trwy gynlluniau arloesol.

**6. Prosiect Cymraeg 2050 i weithredu argymhellion Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru),** mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac Estyn, i gynyddu niferoedd ysgolion Cymraeg a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob ysgol.